***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2543 (Cy.212) (C.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2010

*Gwnaed - - - - 18 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006,

ystyr "Deddf 1996" ("*the EA 1996*") yw Deddf Addysg 1996.

### Diwrnodau penodedig

**2.** Daw darpariaethau canlynol Deddf 2006 i rym ar 31 Hydref 2010—

(a) adran 88;

(b) adran 89 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(c) adrannau 90 a 91;

(ch) adran 92 ac eithrio isadran 8(b):

(d) adrannau 93 i 95;

(dd) adran 96 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(e) adran 97;

(f) adrannau 98 a 99 at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adrannau newydd 20(2A) a 22A o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**3**);

(ff) adran 102 at ddibenion gwneud rheoliadau;

(**1**) 2006 p.40. Diwygir adran 181 gan adran 23 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (2008 mccc 2).
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) 2003 p. 38.

(g) adran 108:

(ng) adran 167;

(h) adran 184 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau a osodir ym mharagraff (i);

(i) yn Rhan 6 o Atodlen 18, diddymu—

yn Neddf 1996, adrannau 550A a 550B,

yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**4**), adran 61 (yn llawn),

yn Neddf Addysg 1997(**5**), adrannau 4 a 5,

yn Neddf Addysg 2002(**6**), y diffiniad o "pupil" yn adran 176(3),

yn Neddf Gofal Plant 2006(**7**), paragraff 42 o Atodlen 2.

**3.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 yn dod i rym ar 5 Ionawr 2011 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adrannau 98 a 99; a

(b) adran 102.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

18 Hydref 2010

(**4**) 1998 p. 31.
(**5**) 1997 p. 44.
(**6**) 2002 p. 32.
(**7**) 2006 p. 21.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 88 i 99, 102, 108 a 167 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym ar 31 Hydref 2010. Mae adrannau 98, 99 a 102 yn cael eu dwyn i rym at ddibenion gwneud rheoliadau ar 31 Hydref 2010 ac yn cychwyn yn llawn ar 5 Ionawr 2011.

Mae adran 88 i 96 yn ymwneud â disgyblaeth ac ymddygiad mewn ysgol a gwaharddiad o'r ysgol. Maent yn sefydlu pŵer statudol i orfodi disgyblaeth ysgol a mesurau mwy penodedig sy'n ymwneud â disgyblion a waharddwyd a chyfrifoldeb rhieni am ymddygiad plant. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn ailddeddfu darpariaethau cyfreithiol eraill ar gyfrifoldebau cyrff llywodraethu am ddisgyblu a phenderfyniad y pennaeth ar bolisi ymddygiad.

Mae adrannau 97 i 99 yn ymestyn argaeledd contractau rhianta a gorchmynion rhianta mewn perthynas â chamymddwyn mewn ysgol.

Mae adran 102 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau a all ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid drefnu cyfweliadau ailintegreiddio ar gyfer disgyblion a waharddwyd.

Mae adran 108 yn ymestyn pwerau'r heddlu i symud triwantiaid o fannau cyhoeddus yn ystod oriau ysgol yn adran 16 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) i gynnwys disgyblion a waharddwyd.

Mae adran 167 yn diwygio adran 176 o Ddeddf Addysg 2002 fel bod y gofyniad i ymgynghori â disgyblion a osodwyd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn gymwys mewn perthynas â disgyblion sy'n cael addysg feithrin.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 4 | 1 Medi 2009 | 2009/1027 (Cy.89) |
| Adran 37(1) a (2)(a) | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 38 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 39 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 40 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adrannau 43-45 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 47 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 53 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 55 | 9 Chwefror 2009 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 57 yn rhannol | 15 Mawrth 2010 | 2010/736 (Cy.73) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| gweddill | 2 Ebrill 2010 | |
| Adran 89 yn rhannol | 1 Ionawr 2010 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 96 yn rhannol | 1 Ionawr 2010 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 156 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 164 | 1 Medi 2009 | 2009/1027 (Cy.89) |
| Adran 166 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 169 | 12 Hydref 2009 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 170 | 12 Hydref 2009 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 171 | 12 Hydref 2009 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 175 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 1 Medi 2009 | 2009/1027 (Cy.89) |
| Adran 184 yn rhannol | 1 Ionawr 2010 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Adran 184 yn rhannol | 2 Ebrill 2010 | 2010/736 (Cy.73) |
| Atodlen 5 yn rhannol | 15 Mawrth 2010 | 2010/736 (Cy.73) |
| gweddill | 2 Ebrill 2010 | |
| Atodlen 17 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 1 Medi 2009 | 2009/1027 (Cy.89) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 1 Ionawr 2010 | 2009/2545 (Cy.207) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 2 Ebrill 2010 | 2010/736 (Cy.73) |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2006/2990 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/54, O.S. 2006/3400, O.S. 2007/935 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1271), O.S. 2007/1271, O.S. 2007/1801, O.S. 2007/3074 ac O.S. 2008/1971.

*Gweler* hefyd adran 188(1) a (2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 8 Tachwedd 2006 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) ac 8 Ionawr 2007 (ddeufis yn ddiweddarach).